



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 13/2020

DYDDIAD CYHOEDDI: 03/03/2020

Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol

Crynodeb Gweithredol

1. Cefndir

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd raglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru am y 12 mis nesaf. Roedd yn cynnwys darpariaethau i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru¹. Mae'r cynnig deddfwriaethol hwn yn cyd-daro â chynlluniau i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru².
- 1.2 Mae gan Lywodraeth Cymru ddi-ddordeb mewn sut i ymgysylltu â'r grwpiau newydd arfaethedig a fyddai'n cael eu hetholfreinio a hefyd y rhai sydd eisoes wedi'u hetholfreinio ond sydd wedi ymddieithrio'n wleidyddol.
- 1.3 Rhoddwyd comisiwn i Beaufort Research gynnal ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd i:
 - Archwilio agweddau tuag at bleidleisio mewn etholiadau;
 - Archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth am wleidyddiaeth yng Nghymru ac i ba raddau y mae pobl yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli;
 - Casglu barn am ymgysylltiad dinesig ehangach a phrofiadau ohono;
 - Adnabod dulliau addas / effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bleidleiswyr.
- 1.4 Roedd y sampl yn cynnwys 148 o gyfranogwyr ar y cyfan, gan gwmpasu pobl ifanc 14-17 oed, oedolion sydd wedi ymddieithrio, gwladolion tramor a rhanddeiliaid. Defnyddiodd yr ymchwil gymysgedd o grwpiau ffocws, grwpiau bach, cyfweiliadau manwl mewn paru, cyfweiliadau manwl wyneb yn wyneb a chyfweiliadau manwl dros y ffôn. Gwnaed cyfran o'r gwaith maes yn Gymraeg. Gwnaed y gwaith maes rhwng diwedd Gorffennaf a dechrau Tachwedd 2019.

¹ Gweler [Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\)](#).

² Gweler [Deddf Senedd ac Etholiadau \(Cymru\) 2020](#).

2. Canfyddiadau allweddol

Roedd cyfranogwyr yn fwy cyfarwydd â chynghorau lleol na Chynulliad Cenedlaethol Cymru – ond nid oedd rhai'n gwybod beth mae cynghorwyr yn ei wneud

- 2.1 Roedd cyfranogwyr yn weddol gyfarwydd â'u cyngor lleol. Roedd yn adnabyddus iddynt trwy ryngweithiadau, logo a staff gweladwy a chlywed pethau ar lafar gwlad. Fodd bynnag, nid oedd rhai'n gyfarwydd â rôl cynghorwyr ac nid oeddent yn gwybod mai wedi'u hethol oeddent. Roedd ansicrwydd weithiau pa un a oedd y cyngor yn gyfrifol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 2.2 Ar y cyfan, naill ai nid oedd cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli gan eu cynghorwyr lleol (er enghraifft am eu bod prin neu byth yn gweld cynghorydd) neu nid oeddent yn teimlo'u bod yn gallu ateb y cwestiwn hwn. Roedd rhai cyfranogwyr iau'n teimlo y byddai cynghorwyr yn bobl hŷn a mwy na thebyg yn bobl nad yw'n hawdd iawn uniaethu â hwy. Gan adlewyrchu agwedd o sinigiaeth gyffredinol, roedd rhai cyfranogwyr hŷn yn tybio na ellid ymddiried mewn cynghorwyr.
- 2.3 Roedd cyfranogwyr yn llai cyfarwydd â Llywodraeth Cymru ac roedd ymwybyddiaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfyngedig iawn. Roedd cyfranogwyr yn ystyried ar y cyfan mai'r un oedd y ddau endid, ac yn ymwybodol o'r ddau enw. Roedd canfyddiadau am eu rôl a'u cyfrifoldebau, lle gwirfoddolwyd y rhain, yn tueddu i fod yn amwys. Roedd adeilad y Senedd yn weddol adnabyddus fel un yr oedd a wnelo rywsut â Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad Cenedlaethol.
- 2.4 Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod gan wleidyddiaeth yng Nghymru broffil isel, gyda rhai ohonynt yn dweud nad oeddent yn dod ar draws y pwnc yn y cyfryngau. Roedd cyfranogwyr yn tueddu i fod ychydig yn fwy ymwybodol o wleidyddiaeth a ffigyrau gwleidyddol y DU o ystyried eu proffil yn y cyfryngau.

Roedd pobl iau a gwladolion tramor yn fwy tebygol nag oedolion a oedd wedi ymddieithrio o ddangos diddordeb mewn pleidleisio mewn etholiadau lleol

- 2.5 Roedd lefelau'r diddordeb mewn pleidleisio ymhlith y ddau grŵp yma'n tueddu i fod wedi cynyddu ychydig erbyn diwedd y trafodaethau ymchwil. Nid oedd hyn yn wir yn achos cyfranogwyr a oedd wedi ymddieithrio.

Roedd diffyg gwybodaeth, meddwl bod gwleidyddiaeth yn ddryslyd ac yn anneniadol a dadrithiad cyffredinol yn rhwystrau allweddol i ymgysylltu

- 2.6 Roedd y rhwystrau i bleidleisio'n gyson fwy neu lai ar draws mathau o gyfranogwyr, ni waeth pa un a oeddent yn gymwys i bleidleisio ai peidio, ond gyda lefelau amrywiol o bwyslais. Roeddent yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau'n gyffredinol yn hytrach na bod rhwystrau penodol yn codi ar gyfer gwahanol fathau o etholiadau yn y DU (lleol, y Cynulliad a'r DU).
- 2.7 Cafodd diffyg gwybodaeth a meddwl bod gwleidyddiaeth yn ddryslyd eu nodi fel rhwystrau allweddol i bleidleisio, yn enwedig ymhlith cyfranogwyr iau a gwladolion tramor. Roedd meddwl bod gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas a dadrithiad cyffredinol gyda gwleidyddion yn rhwystrau blaenllaw hefyd. Roedd 'gwleidyddiaeth' yn aml yn cael ei dehongli o safbwynt negyddol a oedd wedi ymffurfio dros amser ar gyfer cyfranogwyr hŷn a oedd wedi ymddieithrio. Roedd peidio â theimlo'u bod yn cael eu cynrychioli na'u bod wedi'u cysylltu â gwleidyddiaeth yn bresennol fel rhwystr ar draws mathau o gyfranogwyr.
- 2.8 Roedd nifer fach o gyfranogwyr a oedd wedi ymddieithrio wedi pleidleisio yn refferendwm yr UE am ei fod wedi teimlo fel eiliad arwyddocaol. Roedd gwladolion tramor yn fwy tebygol o bwysleisio pwysigrwydd pleidleisio fel modd i leisio barn. I rai, roedd hyn yn dal yn bwysig hyd yn oed os oeddent yn amau uniondeb y broses yn eu gwlad enedigol.
- 2.9 Nid oedd y broses bleidleisio'i hun yn amlwg fel rhwystr i bleidleisio ar y cyfan er ei bod yn glir bod cyfranogwyr yn aml yn anghyfarwydd â sut yr oedd y system yn gweithio, gan gynnwys cofrestru.

- 2.10 Nid oedd rhyw lawer i awgrymu bod unrhyw drafodaethau gwleidyddol yn cael eu cynnal gartref, ac eithrio ymhlith teuluoedd rhai pobl ifanc a rhai gwladolion tramor.

Roedd gwladolion tramor weithiau'n ansicr ynghylch hawliau pleidleisio ar gyfer gwahanol etholiadau yn y DU

- 2.11 Roedd gwladolion tramor yn tueddu i fod yn ymwybodol o'u cymhwysra i bleidleisio mewn etholiadau yn y DU, neu i ddyfalu'n gywir, er bod ymwybyddiaeth gyfyngedig o etholiadau lleol yn golygu nad oedd rhai wedi meddwl rhyw lawer amdano. Roeddent felly weithiau'n ansicr ynghylch eu hawliau pleidleisio. Roedd rhai cyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad yn teimlo rhwystredigaeth na allent bleidleisio mewn unrhyw etholiadau yng Nghymru o ystyried faint o dreth oeddent yn ei thalu a'r ffaith eu bod yn rhan o'r gymuned leol.
- 2.12 Roedd cyfranogwyr o'r tu allan i'r UE a'r tu allan i'r Gymanwlad yn gefnogol iawn ar y cyfan i gynllun Llywodraeth Cymru i roi'r hawl i ddinasyddion o'r tu allan i'r Gymanwlad ac o'r tu allan i'r UE sy'n byw yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau cynghorau lleol³.

Roedd gan gyfranogwyr feddwl mawr o'r cymunedau yr oeddent yn byw ynddynt ond roedd yn tueddu i fod yn aneglur sut i godi mater

- 2.13 Enwodd cyfranogwyr nifer o agweddau cadarnhaol ar eu cymunedau (e.e. y bobl a mynediad at fannau gwyrdd). Fe wnaethant hefyd enwi ystod o faterion cymunedol a oedd yn amrywio o ran eu pwysigrwydd iddynt. Materion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd fwyaf amlwg (e.e. sbwriel, defnyddio cyffuriau a throseddu lefel isel).
- 2.14 Fodd bynnag, nid yn aml yr oedd cyfranogwyr yn ystyried gweithredu ar fater na chwarae rhan yn y gymuned oni bai bod y mater yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Roeddent yn tueddu i beidio â bod yn glir sut i godi mater, mynegi barn neu newid unrhyw beth. Roedd rhai materion i'w gweld yn rhy fawr iddynt allu cael unrhyw ddylanwad. Roedd rhai'n rhagweld na fyddai unrhyw un yn gwrando arnynt pe baent yn ceisio codi mater neu eu bod yn rhy ifanc i wneud hynny.
- 2.15 Serch hynny, roedd llofnodi deisebau ar-lein yn weddol gyffredin ac roedd gan rai brofiad o wirfoddoli, gan awgrymu bod potensial ar gyfer mwy o ymgysylltu.

Roedd rhanddeiliaid yn wynebu heriau tebyg wrth ymgysylltu â'r grwpiau yr oeddent yn gweithio gyda hwy

- 2.16 Roedd gan ddinasyddiaeth ac ymgysylltiad dinesig rôl bwysig yng ngwaith rhai rhanddeiliaid i gefnogi grwpiau penodol o bobl. Mewn rhai achosion, nid oedd y testunau hyn yn rhan mor annatod o'u gwaith; ac roedd rhai'n ei chael yn anodd ymgysylltu â grwpiau o gleientiaid ynghylch pynciau o'r fath oherwydd meysydd eraill mwy taer.
- 2.17 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn ymgodymu â lefelau isel o ymgysylltiad democrataidd a dinesig am y mathau o resymau a grynhwyd uchod. Roedd cyrraedd rhai grwpiau ac ymgysylltu â hwy weithiau'n frwydr (e.e. pobl economaidd anweithgar, pobl ifanc ag anabled a phobl mewn gofal preswyl preifat).

³ Yn wreiddiol fe wnaeth y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) newidiadau i gyfraith etholiadol i alluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Cafodd gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r ymchwil hon ddechrau eu cytuno i alluogi dinasyddion tramor cymhwysol i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad hefyd. Mae rhoi'r hawl i ddinasyddion tramor cymhwysol bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn gyson â chynigion Llywodraeth Cymru i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i ddinasyddion tramor cymhwysol. Roedd amseriad yr ymchwil hon yn golygu na chafodd yr opsiwn hwn i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ei drafod.

Roedd gwybod mwy, teimlo'u bod yn cael gwrandawriad, a gwybod bod cyfranogiad yn gallu gwneud gwahaniaeth yn themâu allweddol o awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwella ymgysylltiad

2.18 Y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Gwybod mwy am y pwnc a sut i godi mater;
- Teimlo bod pobl yn gwrandao arnynt a'u bod yn cael eu cymryd o ddifrif;
- Teimlo y byddai pleidleisio neu chwarae rhan yn y gymuned yn gallu gwneud gwahaniaeth.

2.19 O safbwynt pleidleisio, roedd ar rai cyfranogwyr eisiau gwybod:

- beth oedd y berthynas rhwng y cyngor lleol, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru;
- pam fod gwleidyddiaeth yng Nghymru'n bwysig;
- pwy yw'r pleidiau gwleidyddol a beth maent yn sefyll drosto; a
- sut i benderfynu dros bwy i bleidleisio mewn etholiad.

Roedd gwleidyddion / ymgeiswyr mwy gweladwy a defnyddio ysgolion, y cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau cymunedol presennol yn cael eu hystyried yn ffyrdd allweddol o gyrraedd pobl yn fwy effeithiol

2.20 Fe awgrymodd cyfranogwyr yn aml y byddai gwleidyddion, ymgeiswyr neu benderfynwyr lleol mwy gweladwy a hygyrch – a chael y cyfle i gwrdd â hwy wyneb yn wyneb – yn eu hannog i ymgysylltu'n fwy ac ystyried pleidleisio.

2.21 Roedd themâu mewn negeseuon yr oedd cyfranogwyr yn meddwl y gallent eu cymell i ymgysylltu'n fwy wedi'u canoli ar dystiolaeth o newid, gweithredu, gonestrwydd ac weithiau negeseuon am y dyfodol, er enghraifft lle'r oedd cyfranogwyr yn meddwl am eu plant. Roedd rhai pobl ifanc yn cael eu cymell gan negeseuon am yr amgylchedd. Ymhlith gwladolion tramor a rhai pobl ifanc 14-17 oed, roedd dyhead am negeseuon ynglŷn â chynwysoldeb ac amrywiaeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

2.22 Y prif lwybrau ymgysylltu a awgrymwyd ar gyfer cyrraedd pobl oedd trwy ysgolion a'r sector addysg, trwy lwybrau wyneb yn wyneb yn y gymuned a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

2.23 Nododd rhanddeiliaid sianeli wyneb yn wyneb lleol presennol yn ogystal â hwy eu hunain fel ffordd effeithiol o gyrraedd y bobl leol yr oeddent yn eu cefnogi ac o ymgysylltu â hwy. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol, cyfeiriodd rhai at y llwyddiant yr oeddent yn ei gael gyda rhyngweithiadau wyneb yn wyneb.


2.24 Awgrymodd rhai y dylid hyfforddi neu ariannu'r rhai a oedd eisoes wedi datblygu perthnasoedd llawn ymddiriedaeth â grwpiau anos i'w cyrraedd fel yr economaidd anweithgar, yn hytrach na cheisio ymgysylltu o'r dechrau un. Cafodd 'gweithwyr ieuencid', 'gweithwyr cymorth', 'gweithwyr cymdeithasol', elusennau a gweithredwyr cymunedol eu henwi weithiau fel rhai a oedd mewn sefyllfa dda i helpu. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid amlygu pwysigrwydd strategaethau cymar-i-gymar ar gyfer gwella ymgysylltu hefyd.

2.25 Roedd rhai bechgyn 14-15 oed yn meddwl y byddai cael unigolion uchel eu proffil yn siarad am y pynciau hyn, er enghraifft o fyd y campau a'r byd cerddorol yng Nghymru, yn gallu eu helpu i ymgysylltu.

3. Argymhellion

Mae angen mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth a dryswch cysylltiedig fel rhwystr allweddol i ymgysylltu


- 3.1 Mae'r ymchwil yn nodi datgysylltiad rhwng ymwybyddiaeth resymol o wasanaethau cynghorau lleol a bod â llawer o feddwl o'r gymuned ond peidio â phleidleisio serch hynny. Mae angen gwaith ar helpu pobl i wneud y cysylltiad hwnnw a gwella gwybodaeth am sut y mae llywodraeth leol yn gweithio
- 3.2 Mae gan ysgolion a'r sector addysg rôl arwyddocaol o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwybodaeth a dryswch trwy wreiddio addysg dinasyddiaeth a gwleidyddol yng nghwricwlwm newydd Cymru.
- 3.3 Mae angen ymgyrch codi ymwybyddiaeth uchel ei broffil ar gyfer y cyrhaeddiad eang sy'n ofynnol i wella lefelau dealltwriaeth a chefnogi ymgysylltiad. Mae angen gwaith parhaus hefyd i godi proffil gwleidyddiaeth Cymru yn y cyfryngau.
- 3.4 Roedd pobl ifanc, oedolion iau a oedd wedi ymddieithrio a gwladolion tramor yn dangos mwy o botensial i newid eu canfyddiadau ac ymddygiad ac efallai y byddai o fudd eu targedu â chyfathrebu priodol ac addysg briodol.
- 3.5 Mae'r diagram isod yn crynhoi argymhellion a awgrymwyd ar gyfer mynd i'r afael â rhwystr diffyg gwybodaeth a'r dryswch cysylltiedig⁴.



⁴ Mae'r grŵp economaidd-gymdeithasol (SEG) a roddwyd ar gyfer y crynodeb o'r sampl o oedolion wedi ymddieithrio dros y dudalen yn seiliedig ar alwedigaeth y penteulu, gyda'r grŵp 'DE' wedi'i ddiffinio fel a ganlyn: gweithwyr llaw lled-grefftus a di-greffft, pensïynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, pobl ddi-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig.

Mynd i'r afael â'r rhwystr bod etholiadau a gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas


3.6 Gall addysg helpu i herio canfyddiadau bod etholiadau a gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas. Byddai negeseuon ynglŷn â newid, y dyfodol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn teimlo'n berthnasol a gallent ddal y sylw. Mae sicrhau bod gwleidyddiaeth yn teimlo'n berthnasol yn allweddol, ynghyd â gwneud y broses ymgysylltu'n bleserus ac yn hwyl i bobl ifanc. Mae'r diagram isod yn crynhoi sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystr hwn.



Mynd i'r afael â'r rhwystrau bod pleidleisio neu chwarae rhan ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth, a materion ymddiriedaeth


- 3.7 Mae angen i'r canfyddiadau nad yw pleidleisio a chwarae rhan yn gwneud unrhyw wahaniaeth gael eu herio'n rhagweithiol.
- 3.8 Pryd bynnag y mae barn y cyhoedd yn cael ei cheisio, mae angen gwarantau y bydd adborth ystyrlon yn cael ei ddarparu.
- 3.9 Mae angen mwy o waith i wanhau'r rhagfarn cadarnhad sy'n llywio'r sinigiaeth a ddangosir tuag at wleidyddion yn gyffredinol. Cam cychwynnol posibl fyddai codi proffil proses ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dysgu ohoni, gan ei bod yn cau'r ddolen adborth rhwng deisebwyr a gweithredu trwy bolisi⁵. Mae'r diagram dros y dudalen yn crynhoi sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystr hwn.

⁵ Gweler [Linell amser deisebau](#). I gael enghraifft o weithredu trwy polisi o ganlyniad i ddeiseb, gweler [P-05-817 Aelodau prosthetig arbenigol i blant](#).



Mynd i'r afael â'r rhwystr bod pobl yn teimlo wedi'u datgysylltu

- 3.10 Y prif rwystr terfynol i bleidleisio a chwarae rhan yw teimlo datgysylltiad oddi wrth y cyfan. Mae gwella'r wybodaeth sydd gan bobl a'r wybodaeth a ddarperir ar eu cyfer yn rhan annatod o'r ateb, ynghyd â:
- Dod i adnabod gwleidyddion lleol;
 - Mwy o amrywiaeth ymhlith gwleidyddion / ymgeiswyr;
 - Darparu ffyrdd rhwydd i bobl gael eu clywed;
 - Gweld tystiolaeth o'r modd y mae ymgysylltu'n gwneud gwahaniaeth ar lefel leol;
 - Negeseuon o gynwysoldeb.
- 3.11 Gall defnyddio hwb ymddygiadol prawf cymdeithasol fod â rhan i'w chwarae: gall pobl ymgysylltu â menter neu ymddygiad newid am eu bod yn darganfod bod eraill eisoes yn chwarae rhan.
- 3.12 Gall proses ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu cynnwys astudiaeth achos defnyddiol ac egwyddorion arfer da i gefnogi ymdrechion mwy i ailgysylltu â phobl.
- 3.13 Fodd bynnag, mae'r lefelau ymddieithrio a ddangosir ymhlith cyfranogwyr hŷn yn awgrymu y gallai fod angen ymdrech anarferol o fawr i fynd i'r afael â dadrithiad o'r fath ar raddfa fawr.
- 3.14 Mae'r diagram dros y dudalen yn amlygu awgrymiadau ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystr hwn.



3.15 Dengys yr ymchwil fod peth potensial ar gyfer mwy o ymgysylltu dinesig: mae gan gyfranogwyr feddwl mawr o'u cymunedau, maent yn llofnodi deisebau ac weithiau'n gwirfoddoli. Fodd bynnag, mae angen cymorth i helpu i wireddu'r potensial hwn. Mae angen sianeli sy'n glir, yn hygyrch ac yn cael eu hyrwyddo'n frwd ar gyfer codi mater a chwarae rhan. Mae angen sicrwydd hefyd bod barn pawb yn cael ei chroesawu ac y bydd yn cael gwrandawriad go iawn. Byddai mwy o ymgysylltu dinesig ar lefel leol iawn yn helpu i fod yn sail ar gyfer ymgysylltu dinesig ehangach ar lefel Cymru nad oedd yn ystyriaeth i'r cyfranogwyr hyn ar y cyfan. Er enghraifft, gellid defnyddio rheithgorau a chynulliadau dinasyddion yn fwy eang i helpu yn hyn o beth⁶.

⁶ Gweler [Cynulliad Dinasyddion cyntaf Cymru yn adrodd yn ôl](#).

Awduron: Beaufort Research

Adroddiad ymchwil llawn: Beaufort Research (2020). *Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: ymchwil archwiliol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2020.>

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adnewyddu-ymgysylltiad-democrataidd-ymchwil-archwiliol>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 258586

E-bost: nerys.owens@gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-189-6